Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Snowdon**

**Cartref Gofal Snowdon**
**Llanberis**
**Caernarfon**
**LL55 4LF**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Snowdon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Plas Garnedd Llanberis Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 27 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Tachwedd 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn hapus yn byw yng Nghartref Gofal Snowdon. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff caredig a gofalgar ac maent yn cael cymorth ychwanegol gan weithwyr proffesiynol allanol pan fo angen. Mae'r amgylchedd yn lân, ac mae gan y darparwr gynlluniau i adnewyddu'r ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd ymolchi.

Mae'r bobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Maent wedi dechrau cymryd rhan mewn cyfarfodydd i breswylwyr fel y gallant ddweud eu dweud am y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Dywed y staff wrthym eu bod yn dechrau cael mwy o amser i'w dreulio gyda'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys dathlu dyddiadau arbennig.

Mae dogfennaeth fanwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael ar gyfer y bobl. Fodd bynnag, mae angen gwella'r broses dderbyn ar gyfer pobl sy'n aros am gyfnodau byrrach. Diben hyn yw sicrhau y gall y darparwr fod yn hyderus y gellir diwallu anghenion y bobl a bod risgiau wedi'u nodi.

Mae angen gwella'r prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel yn y cartref, yn enwedig mewn perthynas â chyffuriau a reolir.

Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant pan gaiff angen penodol ei nodi er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ofalu am y bobl a'u cadw'n ddiogel.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff caredig a pharchus. Gwelsom y staff gofal yn cyflawni eu dyletswyddau, gan siarad â'r bobl ar yr un pryd a gwneud yn siŵr eu bod yn iawn. Roedd y bobl yn sgwrsio â'r staff gofal a oedd yn ymateb yn amyneddgar a gyda hiwmor ysgafn pan oedd hynny'n briodol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi ble maent yn byw. Dywedodd un person, *“Feels more like a home, I prefer it here”*, a dywedodd un arall, *“I'm quite happy here, I chose to live here”*. Caiff hoffterau a dewisiadau personol y bobl eu parchu a'u cofnodi yn y cofnodion gofal. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r cofnodion dyddiol er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn adlewyrchu'r cymorth a ddarperir.

Gwelsom fod llyfrau a chylchgronau yn yr ardaloedd cymunedol i'r bobl eu mwynhau. Roedd y radio i'w glywed mewn un ardal ac roedd amrywiaeth o ffilmiau, rhaglenni teledu a cherddoriaeth i'w gweld/clywed drwy'r dydd yn y brif lolfa. Dywedodd y rheolwr wrthym fod adnoddau i gefnogi'r gweithgareddau a bod y staff gofal yn hwyluso hyn yn y prynhawn. Mae'r cartref wedi cael peiriant bingo newydd yn ddiweddar a dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl yn ei fwynhau. Nid yw'r cofnodion dyddiol yn dangos tystiolaeth bod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, ond cawsom wybod fod y bobl yn hoffi chwarae gemau a gwneud crefftau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym ei fod bellach yn gallu treulio mwy o amser gyda'r bobl yn gwneud gweithgareddau. Cynhaliodd y rheolwr gyfarfod i breswylwyr yn ddiweddar lle cafodd y bobl gyfle i nodi pa ddigwyddiadau a gweithgareddau yr hoffent eu gweld, gan gynnwys cerdded, therapi anifeiliaid anwes, gwau a phobi. Gwelsom un preswylydd yn mynd gyda'r staff i'r pentref i siopa a chawsom wybod fod person arall yn hoffi gwneud ioga bob diwrnod. Dathlodd y bobl Ddydd Gŵyl Dewi yn ddiweddar ac mae'r staff a'r preswylwyr wedi trefnu Ffair Basg er mwyn codi arian ar gyfer y cartref ac elusennau lleol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn edrych ymlaen at hyn. Mae'r rheolwr wedi rhoi cynllunydd bwydlen newydd ar waith yn dilyn adborth gan y preswylwyr, er mwyn rhoi mwy o ddewis iddynt. Gwelsom y bobl yn mwynhau'r bwyd ac, os nad oeddent yn hoffi rhywbeth, roedd y staff yn cynnig opsiwn arall.

Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel drwy asesiadau risg a chynlluniau cymorth clir. Fodd bynnag, rhaid i'r darparwr sicrhau bod asesiadau a chynlluniau yn cael eu cynnal a'u cwblhau ar gyfer pob unigolyn sy'n aros yn y lleoliad, gan gynnwys arosiadau seibiant a lleoliadau brys. Mae'r staff yn defnyddio ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau ac yn rhoi gwybod i'r arweinydd tîm neu'r rheolwr am unrhyw bryderon. Caiff digwyddiadau eu cofnodi ar y system electronig a chofnodir unrhyw gamau a gymerwyd. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o hyd o ran cyflwyno hysbysiadau i'r rheoleiddiwr.

Defnyddir gweithwyr proffesiynol allanol a gwasanaethau ychwanegol i gefnogi iechyd a llesiant y bobl. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu yn y cartref neu bydd y staff yn trefnu

i'r bobl fynd i apwyntiadau. Mae angen gwella'r prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel, yn enwedig mewn perthynas â chyffuriau a reolir.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cofnodion gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn fanwl. Mae'r proffiliau personol yn cynnwys gwybodaeth am hanes bywyd y bobl, eu teulu a'u diddordebau yn y gorffennol ac ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau yn nodi'r hyn sy'n bwysig i'r bobl, megis pryderon penodol a phethau y maent yn hoffi eu gwneud sy'n rhoi dewis a rheolaeth iddynt. Caiff meysydd gofal a chymorth eu nodi, a nodir gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i'r staff sut i helpu'r person â'r agwedd hon ar ei lesiant. Mae gwybodaeth ynghylch pryd y mae'r bobl yn hoffi codi a mynd i'r gwely a'u dewisiadau gofal personol yn dangos bod gan y bobl lais o ran sut yr hoffent i'w gofal gael ei ddarparu. Mae'r cofnodion electronig yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth mewn nifer o ddogfennau. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y cynnwys yn gyson drwyddi draw er mwyn osgoi camwybodaeth. Roedd y staff gofal yn gallu dweud wrthym am anghenion y bobl a'u dewisiadau. Mae asesiadau risg ar waith sy'n nodi'r camau sydd angen eu cymryd i gadw'r bobl yn ddiogel a hybu eu llesiant cyffredinol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion ar gyfer pobl a oedd yn byw yn y cartref fel rhan o gynllun ailalluogi. Nid oedd y darparwr wedi cwblhau ei asesiad na'i gynllun cymorth ei hun. O ganlyniad, mae'n bosibl nad oedd gan y staff ddigon o wybodaeth i sicrhau bod modd diwallu anghenion y bobl neu i sicrhau bod risgiau wedi cael eu nodi a'u hystyried. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl dderbyniadau i'r cartref yn cael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau, gan gynnwys arosiadau seibiant a lleoliadau brys.

Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom fod y staff gofal yn ymateb i glychau galw yn gyflym ar y cyfan a'u bod yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r bobl yn yr ardaloedd cymunedol am ddiodydd a blancedi. Gwnaethom siarad â'r bobl a oedd yn treulio amser yn eu hystafelloedd a ddywedodd wrthym y gallent ddefnyddio eu cloch alw pe byddai angen ac y byddai'r staff yn dod i'w helpu. Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod rhai o'r staff yn cofnodi pan fyddant yn cadarnhau bod y clychau galw yn gweithio ac yn eu gadael mewn man lle gall y bobl eu cyrraedd. Dywedodd y rheolwr wrthym y bydd yn ofynnol i bob aelod o'r staff gofnodi ar nodiadau dyddiol y bobl eu bod wedi cadarnhau bod y clychau galw yn gweithio a'u bod o fewn cyrraedd y bobl sy'n dewis aros yn eu hystafelloedd gwely.

Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi'n briodol yn ystod y nos drwy wiriadau rheolaidd a bod ceisiadau am gymorth yn cael eu bodloni. Ni chaiff cofnodion o'r cymorth a ddarperir yn ystod y dydd eu cwblhau yn syth bob amser, sy'n golygu nad yw'r cofnodion yn adlewyrchu'r amseroedd y cafodd y gofal ei ddarparu. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn cwblhau cofnodion gofal yn brydlon er mwyn dangos tystiolaeth o'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael. Mae'r staff gofal yn wyliadwrus ac yn rhagweithiol wrth sicrhau bod y bobl yn cael cymorth ychwanegol gan weithwyr iechyd proffesiynol.

Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod y staff yn nodi materion posibl ac yn gweithredu'n brydlon, gan gofnodi pryderon a rhoi gwybod amdanynt, a chadw nodiadau cywir o unrhyw gyfraniad neu gyngor gan weithwyr proffesiynol allanol. Gwelsom dystiolaeth o ymweliadau rheolaidd gan nyrsys ardal, meddyg teulu, therapydd galwedigaethol a gwasanaethau cymorth eraill.

Gwelsom y staff gofal yn cwblhau rowndiau meddyginiaeth yn ddiwyd ac yn ofalus. Gwelwyd arferion priodol wrth roi meddyginiaeth, ond ni chaiff meddyginiaethau eu rheoli a'u storio'n ddiogel yn y cartref. Roedd cofnodion anghyflawn am y cyffuriau a reolir a roddwyd a chofnodion stoc anghywir na chawsant eu nodi yn ystod archwiliadau meddyginiaeth misol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref glân a diogel. Gofynnir i ymwelwyr ddangos prawf adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr. Gall y bobl ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny. Mae cynllun y cartref yn golygu y gall y bobl symud o gwmpas yn annibynnol ac mae lifft ar gael a gaiff ei wasanaethu ddwywaith y flwyddyn. Roedd y cyfarpar yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da ac mae'r darparwr wedi gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod gan y bobl gyfarpar sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae cofnodion ar waith i ddangos hyn.

Gall y bobl ddewis treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol, gan gynnwys y brif lolfa, yr ardal fwyta a'r heulfan. Yn ystod y misoedd cynhesach, gall y bobl fwynhau'r ardd hygyrch sy'n cynnig golygfeydd hyfryd o'r parc cenedlaethol. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain sydd wedi'u personoli â lluniau, dodrefn ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Byddai'n fuddiol i'r bobl pe bai llun ohonynt a'u henw yn cael eu gosod ar eu drws i'w helpu i ddod o hyd i'w hystafell.

Gwelsom fod llyfr cynnal a chadw yn y cartref a gaiff ei ddefnyddio gan y staff pan fyddant yn sylwi ar broblem. Bydd y gweithiwr cynnal a chadw yn mynd i'r afael â'r broblem, ac yn llofnodi ac yn nodi dyddiad yn y llyfr pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o archwiliad amgylcheddol ac nid oedd materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad wedi cael eu cofnodi yn y llyfr cynnal a chadw. Dywedodd y darparwr wrthym fod cynlluniau ar y gweill i adnewyddu'r heulfan, cael seddi cymunedol newydd ac ailbaentio.

Mae'r cartref wedi cael arolygiad Iechyd yr Amgylchedd ac arolygiad Diogelwch Tân yn ddiweddar. Mae'n aros am yr adroddiadau o'r ymweliadau hyn.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nodwyd bod tymheredd y cartref yn amrywio'n sylweddol. Roedd cynllun agored y cartref yn golygu bod yr ardaloedd cymunedol yn gynnes iawn yn y bore pan oedd yr haul yn tywynnu drwy'r heulfan, ac roedd y bobl yn diosg eu cardiganau a'u

blancedi yn ystod cyfnod poethaf y diwrnod. Fodd bynnag, wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen, roedd y tymheredd yn gostwng ac roedd y bobl yn gofyn am flancedi. Roedd tystiolaeth yn y cofnodion dyddiol fod y bobl wedi dweud eu bod yn oer. Nodwyd bod y gwres yn cael ei reoli o bell ac mai dim ond un dull o wirio'r tymheredd sydd ar waith ar gyfer y cartref cyfan. Dywedodd y darparwr wrthym fod y gwres yn cael ei reoli gan thermostat a'i fod yn dod ymlaen yn awtomatig os bydd y tymheredd yn mynd yn is na 18 gradd.

Mae angen cwblhau gwaith yn yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel, y gellir dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol ac y gall y bobl fwynhau amgylchedd dymunol a phreifat wrth gael gofal personol. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yn yr arolygiad diwethaf, nodwyd nad yw'r darparwr bob amser yn cyflwyno hysbysiadau mewn modd amserol neu pan fydd digwyddiad yn codi y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr amdano. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn perthynas â chyflwyno hysbysiadau i'r rheoleiddiwr, fel sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliadau. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwr presennol yn eu cefnogi a'u bod yn credu bod newidiadau yn cael effaith gadarnhaol ar y tîm a'r bobl a gefnogir. Mae'r rheolwr wedi cynnal cyfarfodydd staff gan annog y staff i fyfyrio ar arferion a phrosesau gofal a rhoi arweiniad arnynt. Mae'r cofnodion yn dangos nad yw pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd mor aml ag sy'n ofynnol, fel y nodir yn y rheoliadau. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos nad yw'r staff wedi cael hyfforddiant sy'n benodol i'r anghenion a nodwyd ar gyfer y bobl. Bydd datblygu'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir i'r staff ymhellach yn sicrhau bod gan y staff gofal y sgiliau a'r wybodaeth i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolion yn y cartref, gan eu cadw'n ddiogel a hybu canlyniadau iechyd cadarnhaol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod nifer addas o staff gofal, staff cegin a staff domestig yn y cartref. Gwnaethom edrych ar rota'r staff a gwelsom nad yw'r lefelau staffio yn bodloni'r lefelau a nodir yn y datganiad o ddiben ar rai diwrnodau oherwydd absenoldeb salwch a gwyliau blynyddol. Mae nifer y staff ar shifftiau nos yn bodloni'r lefelau a nodwyd. Mae'r darparwr yn parhau i recriwtio ond dywed ei bod hi'n anodd a bod hyn yn her gyffredin ar draws y sector.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith gan y darparwr a gallai'r staff eu dangos i ni ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r darparwr wrthi'n trosglwyddo polisïau i fformat digidol fel y gellir cael gafael arnynt a'u diweddaru'n hawdd, a bydd llwybr archwilio yn dangos bod y staff wedi darllen y cynnwys. Mae'r darparwr hefyd yn ymchwilio i hyfforddiant ar-lein i

gefnogi'r staff ac mae wedi cymryd camau cadarnhaol i ddod o hyd i adnodd sy'n cyd-fynd â chanllawiau a chodau ymarfer Cymru.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Ni chaiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel yn y cartref. | Newydd |
| 36 | Nid yw pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd mor aml ag sy'n ofynnol. Nid yw'r staff yn cael hyfforddiant sy'n benodol i'r anghenion gofal a nodwyd ar gyfer y bobl sy'n cael eu cefnogi. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd wedi'i gofnodi yn y cofnodion hyfforddiant. | Newydd |
| 35 | Mae'r darparwr wedi methu â sicrhau bod proses effeithiol ar waith i wneud yn siŵr bod gan y staff gofal y geirdaon angenrheidiol cyn iddynt ddechrau eu swydd. | Adolygwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 60 | Nid yw'r darparwr bob amser yn cyflwyno hysbysiadau mewn modd amserol neu pan fydd digwyddiad, fel y'i nodir yn y rheoliadau, wedi digwydd. | Newydd |
| 44 | Nid oes gan y darparwr gynllun cynnal a chadw ar waith ac nid yw wedi nodi meysydd iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau ac addurno cyffredinol y mae angen ymdrin â nhw. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/06/2023